

Llais y Llan Ebrill 2015

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 25 Mai 2015
Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol
www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 253643

Bowlio pob Nos Lun a Nos Iau 7.30 – 9.30 o Medi

Ebrill 7 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Ebrill 11 Dydd Sadwrn 11.30 Cerdded Tyddewi a Solva

Ebrill 15 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Ebrill 16 Nos Iau 7.30 Côr Llanpumsaint Eglwys Christ Caerfyrddin

Ebrill 17 Nos Wener Cyngerdd Clwb 60+ Neuadd Bronwydd

Ebrill 20 Nos Lun Merchedd y Wawr - Noson a arddangos Gemwaith gan Catrin Evans Thomas

Ebrill 22 Nos Fercher 7.30 Sioe Ffasiwn Neuadd Goffa

Ebrill 23 Nos Iau 8.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Ebrill 26 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru, Neuadd Bronwydd

Ebrill 26 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Nantcelynen Bronwydd

Ebrill 30 Nos Iau 8.00 CCB Cymdeithas Les Llanpumsaint Memorial Hall

Mai 3 Dydd Sul Dydd Rhyngwladol y Dewinwyr – Gerddi Botaneg

Mai 5 Nos Fawrth 8.00 CCB Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Mai 6 Dydd Mercher 4.30 – 5.30 Llawdriniaeth yr Heddlu y tu allan i'r siop

Mai 9 Dydd Sadwrn 11.00 Cerdedd Gwarchodfa Natur Dinas yr RSPB

Mai 9 Dydd Sadwrn 4.00 Diwrnod o hwyl a sbri! Cae chwarae ac Neuadd Goffa

Mai 13 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

May 16 Nos Sadwrn Noson Gaws a Gwin Cylch Meithrin Neuadd Bronwydd

Mai 21 Nos Iau 8.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Mai 24 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Mai 30 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Nantcelynen Bronwydd

Mehefin 2 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Mehefin 5 Dydd Gwener 11.00 Cerdded Gerddi Botaneg

Mehefin 10 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Mehefin 14 Dydd Sul Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Cenarth

Mehefin 18 Nos Iau 8.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Mehefin 21 Dydd Sul 11.00 Cerdded Llanpumsaint

Mehefin 28 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Mehefin 28 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Nantcelynen Bronwydd

*Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonbenri
I logi'r Neuadd Goffa, ffonwch Arwel Nicholas ar 01267 281365*

Clwb Cant Llanpumsaint

Daeth yr amser i ail ymaelodi a dosbarthwyd nodyn atgoffa i gyn-aelodau. Gellir gwneud hynny drwy gysylltu â'r Trysorydd Derik Lock, y gost yw £12 y flwyddyn. Defnyddir yr elw i gyd i gynnal offer y cae a'r lle chwarae. Y llynedd prynwyd siglen breseb.

Cyhoeddir rhestr yr enillwyr bob mis yn Llais Y Llan, Siop Penbontbren, hysbysfwrdd y Neuadd a hysbysfwrdd safle bws gyferbyn a'r Railwe.

Noson gyda'r Swing Boyz

Wedi darllen yr adroddiadau clodwiw am y bwyd da a'r gerddoriaeth fyw'r llynedd, aethom draw i'r Neuadd Goffa yn llawn hyder ar yr 28ain o Chwefror. Wrth gyrraedd gwelsom fod y lle eisoes yn llawn a phawb yn mwynhau clonc yn sŵn y gerddoriaeth gefndirol. Gyda'r bordydd wedi eu gosod a'u harddun a chennin Pedr a chlustiau wyn bach daeth aroglau addawol o'r gegin, felly popeth yn eu lle am noson gofiadwy.

Eisteddom i lawr i fwynhau ein diod gan sylwi fod nifer fawr o bobl wedi gwisgo yn arddull cyfnod y "Swing" ac aelodau'r band yn eu siwtiau a'u hetiau o'r cyfnod. Aeth y Band ati i chwarae nifer o hen ffefrynau, cyn ein hamser ni, ond eto i gyd roeddem yn gyfarwydd â nhw. Mewn noson o'r fath hon mae llawer yn swil i ddechrau dawnsio ond nid heno. Lan a nhw a mas i'r lawr i symud yn hyderus a medrus. Buom yn eu gwyllo'n genfigennus ond heb yr hyder i ymuno a hwy. Ambell waith fe awn mas i symud ychydig ond heno ni allem gystadlu a'r safon yma.

Ar ôl rhyw awr o adloniant dyma'r gegin yn agor yr agoriad i weini'r wledd, a dyna beth oedd amrywiaeth o fwyd cartref. Cawsom lobscows blasus gyda chyflenwad o fara i lanhau'r plât, a digon ohono hefyd. Prin oedd y lle i bwdin ond ni allem wrthod y darten fale a chyrens du a chwstard. Yn ystod yr egwyl fe'm diddorwyd gan gitarydd hynod o ddawnus, ac yna roeddem yn barod am yr ail hanner. Bu yna ryw broblem fechan gyda'r sain ond mewn dim ffwrdd a hi yn sŵn y gerddoriaeth odidog. Er bod pawb ar y llawr a gwir angen symud arnom ninnau ar ôl yr holl fwyta, aros ar ein heistedd gwnaethom ni, rhag ofn i ni fod yn destun sbort.

Chwaraeodd y Band hyd unarddeg o'r gloch gyda'r dawnsywyr yn dal ati'n ddi-baid. O ble maen nhw'n cael yr holl egni? Ond ar y ffordd adre a neb yn ein gweld mi drïo ni ychydig gamau wrth ganu "Autumn Leaves".

Braf oedd clywed wedyn fod y noson wedi gwneud tipyn o elw a hwnnw yn mynd at elusen cancr ymledol. Bu'n noson hwylus dros ben. Ar wahân i'r Band rhaid diolch i bawb wnaeth gyfrannu at y llwyddiant, gan gynnwys y trefnwyr, y cogyddion a phawb arall fu wrth gefn. Edrychwn ymlaen at achlysur blwyddyn nesaf.

Yn rhodd i Ymchwil Canser y Prostad - canlyniad da!

Clwb Cerdded Llanpumsaint

Ebrill yr 11eg yw dyddiad y daith nesaf pan fyddwn yn canlyn llwybr yr arfordir o Dyddewi drwy Borthclais a Chapel Santes Non i Solfach. Yn y maes parcio yno yn Solfach byddwn yn gadael ein ceir, a gan ei fod 44milltir i ffwrdd bydd angen mwy nag awr arnoch. Mi fydd yna dal! Bwriadwn ddal y bws lleol i Dyddewi am 11.30 y b, ac yna cerdded y bum milltir yn ôl i'r ceir. Dewch a phegyn bwyd i fwynhau picnic naill a'i gyda'r Santes Non neu borthladd hanesyddol Porthclais. Ym mis Mai ar Sadwrn y 9fed byddwn yn ail gerdded Gwarchodfa Natur Dinas yr RSPB yn Rhandirmwyn Drwy goedwig dderw i'r afon Tywi wyllt, cylchynu'r mynydd ac ymweld ag ogof Twm Siôn Catti ar ôl cychwyn am 11 yb. Lleolir y warchodfa fendigedig yma yng nghanolbarth Cymru ger ystrad ffin. Mae'n daith gylch anodd a serth ar brydiau ond yn werth ei gwneud bob cam. Yn y goedwig dderw ar gychwyn haf gellir gweld cannoedd o wybodeg frith a brych, telor y coed, telor yr helyg, y penddu, i enwi ond ychydig. Efallai byddwn yn ffodus o weld y wledd o glychau'r coed fel y digwyddodd y llynedd.

Wedi ciniawa yn y Royal Oak yn Rhandirmwyn byddwn yn esgyn i'r mynydd Grisial i'r hen weithfeydd mwyn. Y llynedd daeth nifer o'n grŵp o hyd i ddarnau crisial hynod o dlws. Gan i'r coed ar y rhan uchaf gael eu cwmpo mae yna olygfa agored hyd Fannau Brycheiniog ar y diwrnod iawn. Y man cyfarfod yw Gwarchodfa Dinas - Cyf Grid Sn 781466 neu ffoniwch Carolyn i drefni rannu car. Os am ginio yn y Royal Oak bydd angen bwcio -- mae'r bwyd yn fendigedig! Dwy daith fer sydd gennym ym Mehefin. Yn y cyntaf cawn ein harwain o amgylch rhan o Ystâd 568 erw Middleton, sef lleoliad y Gerddi Botaneg Genedlaethol. Telir y gost mynediad arferol o £9.75 ond cewch fynd i mewn am ddim os brynwch Docyn Cinio am £10. Cychwyn yno am 11 o'r gloch y bore, byddwn yn cerdded am ddwy filltir.

Ar Ddydd Canol Haf, sef y Sul 21ain o Fehefin, gyda chaniataid caredig y tiffeddianwyr, dilynwn ein taith arferol at Byllau'r Saint. Maint i fynnu'r cwm cul felly gwisgwch dan draed yn addas at gerdded drwy'r afon Cerwyn. Byddai cario ffon yn gymorth hefyd oherwydd y cerrig llithrig. Yn ôl traddodiad byddai'r pum Sant yn ymdrochi yn y pyllau. Honnir i'r dŵr yma fod yn iachusol a defnyddiwyd y pyllau gan y Derwyddon a'r Cristnogion cynnar at wahanol seremonïau. Hyd yn oed mor ddiweddar â'r 17eg ganrif tyrrau cannoedd yma ar Ddydd Sant Pedr, sef Mehefin 21ain, er mwyn cael eu hiachau o'u clefydau a'u hachwyniadau. Cwrdd y tu allan i'r Railwe am 11eg y bore. Os am ddod ar un o'r teithiau uchod rhwch wybod i Carolyn Smethurst ar 01267 253308.

Angen cartref ar deulu yn ardal Llanpumsaint

Dau artist gyda dau blentyn hyfryd naw a phedair ar ddeg oed, angen tŷ gyda thair ystafell wely a lle i stiwdio. I brynu neu renti. Rydym yn caru'r ardal a'r bobl ac yn rhwymedig i Lanpumsaint oherwydd bod y plant yn derbyn eu haddysg yn lleol a'u ffrindiau yma. Os oes gennych hen adeilad neu sgubor wag ar eich fferm yna cysylltwch â ni. Rydym yn gyfrifol a deinamig.

0780701708 neu 01267253055

E-bost: s.emil.jacobsen@ gmail.com

Hwyl am y dydd! Sven

Molly

Ar Ddydd Sul 21ain o Fawrth collom ein ci bach annwyl. Bu mewn gwrthdrawiad ar y heol a thractor felly gofynnwn i gerddwyr cwn fod yn dra gwyliadwrus pan welant gerbydau mawr yn dod atynt.

Cynllun Cenedlaethol Monitro Planhigion

Lansiwyd y cynllun newydd yma ar ddechrau'r mis. Dyma'r cyntaf o'i fath ac mae'n gofyn am wirfoddolwyr ar draws y Deyrnas Unedig i ymweld â chilometr o dir i nodi'r gwahanol blanhigion yno. Bydd y cynllun yn ein galluogi i asesi sut mae planhigion yn ymateb i newidiadau'r amgylchfyd mewn gwahanol fannau. Efallai fod yna unigolion o fewn eich cymuned yn barod i ymuno a'r fenter ei cefnogir gan y Llywodraeth. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys, Cymdeithas Fotaneg Prydain ac Iwerddon, Y Ganolfan Ecolegol, Cyd - Bwyllgor Cadwraeth a Phlanhigion.

Pa gefnogaeth fydd ar gael i wirfoddolwyr?

Bydd pob un sydd yn cofrestru gyda www.npms.org.uk yn derbyn pecyn arolwg fydd yn cynnwys rhestr rhywogaeth a llyfr canllaw.

Bydd cymorth a chyngor ar gael drwy ffon neu E-bost gan gyd-gysylltydd.

Bydd cyrsiau hyfforddi rhad ar gael i bob gwirfoddolwr.

Gwybodaeth ychwanegol

Dewiswyd y sgwariau ar hap ar draws y Deyrnas a gellwch weld a oes un yn agos i chi drwy fynd i'r wefan.

Gofynnir i'r gwirfoddolwyr nodi hyd at dri deg o blanhigion o fewn eu sgwâr ond eu bod yn cydymffurfio ac un o 28 cynefin npms.

Gofynnir i chi wneud arolwg o'ch sgwaryn ddwywaith y flwyddyn.

Gallwch fod yn wirfoddolwr unigol neu yn grŵp.

Kate Cameron, Swyddog Cefnogol Cyfathrebu Ymestynnol 01722 342759

14 Rollestone St. Salisbury sp11dx www.plantlife.org.uk

Clwb Bowlio Byr Llanpumsaint a Nebo

Drwy ennill 12 gem gynghrair, colli 7 a dod yn gyfartal mewn tair, gorffennwyd ein tymor gorau oll hyd yn hyn. Oherwydd nad yw nifer o glybiau wedi gorffen eu rhaglen ni wyddom eto beth fydd ein safle terfynol, ond gobeithiwn fod yn drydydd neu bedwerydd.

Cynhaliwyd ein noson Ffeinals a Chaws ar yr 2ail o Ebrill a daw'r cinio blynyddol yn y Railwe ar yr 17eg o Ebrill.

Byddwn yn chwarae'r ail gymal am Dlws Coffa Roy Bowen erbyn Bronwydd ar 16eg o Ebrill, a hon fydd gem ola'r tymor. Cyfartal fu'r cymal cyntaf, 4-4.

Cynhelir ein Cyfarfod Blynyddol yn y Neuadd ar 27ain o Awst a chroeso yno i bawb sydd am ymuno am wyth o'r gloch.

Bydd y tymor newydd yn dechrau ar yr 2ail o Fedi, a byddwn yn cwrdd yn y Neuadd Goffa o 7.30 y h hyd 9.30 bob nos Lun a nos Iau o hynny ymlaen. Os am ymuno cysylltwch â'r Ysgrifenydd Derick Lock ar 01267 253524 am wybodaeth bellach. Mae oedran ein haelodau yn amrywio o 11 i 85 ac nid oes angen profiad blaenorol arnoch oherwydd bod hyfforddwyr profiadol yma. Rhowch gynnig arni, ri' ni'n griw eitha' cyfeillgar!

Apêl at siaradwyr Cymraeg

Er bod yna nifer o adroddiadau ar weithgareddau mudiadau yn cael eu cyflwyno i Llais y Llan, sylwir nad oes cyfraniadau gwreiddiol yn y Gymraeg yn cyrraedd. Yn fwyfwy Saeson sy'n cynnig y rheini. Mae'n bwysig fod ein bywyd Cymreig yn yr ardal yn cael ei adlewyrchu yn Llais y Llan.

Caiff unrhyw gyfraniad ei gyfieithu i'r Saesneg, felly ni ddylai neb ddal yn ôl. Ewch ati, yn enwedig y to ifanc, oherwydd mae'n bwysig fod ein diwylliant a'n ffordd o fyw yn cael ei drosglwyddo i'r di-gymraeg sydd wedi ymgartrefu yn ein mysg. Mae digon o Gymry ar ôl yma ac mae angen eu clywed.

Y Gwesty Ia gan Vi Robinson

Er mwyn dathlu ein priodas arian llwyddais i berswadio Dave i dreillio ychydig ddyddiau 200 medr o fewn y Cylch Arctig mewn Gwesty Ia yn Lapland. Yr oedd hyn yn rhan o'n gobaith oesol i weld Goleuni'r Gogledd sef yr Aurora Borealis. Adeiladwyd y gwesty o eira a blociau o ia o'r afon Torne neu snice fel ei gelwyd. Caiff ei chreu bob mis Tachwedd ac wedyn i doddi ymaith erbyn Ebrill. Bydd gwahanol artistiaid yn cerflunio ystafelloedd unigryw gan amrywio'r themâu. Y syniad tu ôl i them ein hystafell ni oedd y gem Chess, ac roedd y tymheredd y tu fewn yn -5. Y tu fas disgwyliwn -28 ond -20 a gawsom. Treuliwyd y noson gyntaf mewn gwesty cynnes ym Mharc Cenedlaethol Abisko, gan esgyn mewn cadair godi i gopa'r mynydd mewn hanner awr {o'n ni'n amheus - sa' i'n hoffi uchder}. Oherwydd ein bod bellach uwchlaw'r cymylau dyma'r cyfle gorau i weld yr Aurora. Wedi mwynhau pryd o fwyd pedwar cwrs aethom mas i lygadi arddangosfa anhygoel. Y diwrnod wedyn aethom i'r Gwesty Ia yn Jukkasjarvi oedd yn dathlu ei phumed ar hugain pen-blwydd. Yna edrych o gwmpas y lle a derbyn cyngor ar shwt oedd goroesa'r nos yn cysgu ar flocyn o ia maint gwely dwbl. Wedi mwynhau ymweliad a'r anialwch cawsom bryd arall a'r pleser o weld y goleuadau dro ar ôl tro. Ond gwell i ddod y tu allan i'r gwesty am hanner nos, wrth wylio'r lliwiau gwyrddaf oll yn dawnsio drwy'r ffurfafen. Clywais y gair WAW dro ar ôl tro hyd at ddau o'r gloch y bore. Nawr daeth yr amser i fynd i'r gwely. Wedi casglu ein sachau cysgu thermol a dadwisgo i'r dillad isaf thermol hefyd, cadwom ein sanau a'n hetiau arno gan osod ein hesgidiau wrth ochr y gwely Ia. Bellach dim ond matras a chroen carw oedd rhyngom a'r ia. Bu'n noson eithaf cyfforddus er mor anghyffredin. Trannoeth fe'm dihunwyd gan aelod o staff gyda jwgaid o sudd mwyaren logan twym. Ar y diwrnod olaf aethom ar daith car llusg y cwn hysgi, a dyna beth oedd reid rwff. Pryd arall o fwyd eto, a thros y tridiau fe fwytasom gig elc a charw Llychlyn. Teimlwn yn freintiedig dros ben o weld y Goleuadau dwy dair o weithiau dros y tridiau, a hynny wedi bod yn uchelgais gennyf ers fy ardegau. Gwireddwyd ein gobeithion yn llwyr gan y profiad a diolch i Dave, wnaeth fateroli'r dechneg camera yn gloi, mae gennym luniau ddigon i'n hatgoffa. Mae yna gyswllt i rai o'r lluniau ar y ffurf ar-lein o'r erthygl yma
(Gweler y cyfeiriad ar y fersiwn Saesneg)

Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Gellir gweld manylion am eich cyngorwyr ar <http://llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/>
Gellwch hefyd weld y munudau yno yn y ddwy iaith neu yn y siop leol. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol yn y Neuadd ar y 5ed o Fai, i'w ddilyn gan y cyfarfod misol arferol. Bydd cyfleusterau cyfieithu llawn ar gael i rai Seisnig eu hiaith. Gellir cysylltu â Philip Jones, y Clerc, ar 01267 253512 neu drwy E-bost - clerk@llanpumsaint.org.uk

Cais Cynllunio

Trafodwyd y cais cynllunio canlynol - W 31527 Cae Pennant Rhydargaeau sa336bj - Adeiladu gweithdy at weithgaredd amaethyddol a choedwigaeth, a chreu mynedfa a ffordd iddo. Er nad oedd gwrthwynebiad mewn egwyddor poenau'r Cyngor am oblygiadau sŵn i'r cartrefu cyfagos.

Clwb Gwili Chwe Deg

Cyngerdd yn Neuadd Bronwydd am 7 o'r gloch, Artistiaid - Côr Meibion Caerfyrddin, Ross Moore + Wynford James, Canu Gwlad gyda Huw, Arweinydd - Roy Llywelyn
Tocyn i gynnwys pryd o fwyd - £14 - Oddiwrth Peter 01267 281194 neu Glyn 01267 236280
Raffl -- Dewch a'ch diodydd eich hunain.
Os oes unrhyw un a awydd ymuno a'r clwb a fydddech cystal a chysylltu a'r Ysgrifennydd Mrs Val Giles ar 01267 281194 am fanylion. Tâl aelodaeth yw £5 y flwyddyn. Croeso cynnes i bawb.

Cymdeithas Les Llanpumsaint

Bwriad yr Ymddiriedolwyr yw gosod dau gol llawn maint yn y cae cyn hir. Rydym hefyd yn mynd i osod bin sbwriel cryfach ger y cwrt tenis yn lle'r olaf o'r rhai melyn. Apeliwn unwaith eto at bawb sy'n defnyddio'r cae a'r lle chwarae i osod eu sbwriel yn y biniau sydd wrth law. Yn y cyfamser torrwyd y borfa am y tro cynta' a chymerwyd camau i erlid y gwahaddod.

Cynhelir ein Cyfarfod Blynyddol yn y Neuadd Goffa ar nos Iau 30ain o Ebrill am wyth o'r gloch. Croeso i bawb! Wrth gyflawni eu dyletswyddau o gynnal y cae chwarae a'r lle chwarae mae'r Ymddiriedolwyr o hyd yn awyddus i groesawu wynebaw a dwylo newydd. Os oes diddordeb gennych cysylltwch â'r Gadeiryddes Pamela Jones 01267 253257 neu'r Ysgrifenydd Derick Lock 01267 253524.

Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri

Bu'r noson yng nghwmni Clive Edwards ar yr 28ain o Fawrth yn llwyddiant mawr - gwelir yr adroddiad yn rhifyn Mehefin o Lais y Llan. Newyddion da i'r gwragedd oherwydd bydd Nannette o Sioe Ffasiynau Cydweli yn cyflwyno ei Chasgliad y Gwanwyn yn y Neuadd ar Ebrill yr 22ain am hanner awr wedi saith yr hwyr. Bydd tocynnau ar gael oddi wrth y Cadeirydd Arwel Nickolas 01267 285365 neu'r Ysgrifenydd Derik Lock 01267 253524 am £5 - a hynny i gynnwys diod o win neu sudd oren

Dylai fod yn noson hwylus gyda digon o chwerthin!

Diwrnod o hwyl a sbri! Dydd Sadwrn 9fed o Fai

Trefnir cystadleuaeth rownderi a pheldroed pum bob ochr, ynghyd a chastell yn bownsio rhwng pedwar a chwech o'r gloch. Yna bydd Ras Hwyaidd Nebo yn digwydd ar yr afon Gwili. Yn dilyn ymlaen o hynny bydd Noson Rasys Ceffylau i'r Teulu ar sgrin fawr yn y Neuadd. Bydd yna Far a rhywbeth i'w fwyta neu gallwch flasgu pysgod a sglodion Steve drws nesa'.

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol eto yn y Neuadd ar Nos Lun 15fed o Fehefin am wyth o'r gloch. Dewch yn llul!

Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru

Dydd Sul Ebrill 26ain -- Adrian Incledon-Webber -- Testun i'w drefnu.

Dydd Sul Mai 3dd -- Dydd Rhyngwladol y Dewinwyr -- Gerddi Botaneg

Dydd Sul Mai 24ain - Robert Marayon Taylor -- Rhifoleg

Dydd Sul Mehefin 14eg -- Taith Faes i Ffynnon Cenarth a Rhaeadr Ffynonne

Dydd Sul Mehefin 28ain -- Siaradwr i'w drefnu.

Mae'r ymarfer hyn yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol ac yn fuddiol iawn i bawb, a chredir iddo darddu o Wlad yr Aifft. Mae sawl cwmni yn defnyddio'r ymarfer hyn yn awr i chwilio am ddŵr, olew a cheblau trydan a.y.b. Hefyd fe'i defnyddir gan rhai pobl i ddarganfod diogelwch eu bwyd, er mae cred bersonol yw hyn ac nid yw hyd yn hyn wedi ei brofi yn wyddonol. Pam na ddewch chi i'r cyfarfod i weld dros eich hunan beth mae'r ymarfer hyn yn medru gwneud. Tâl mynediad yw £4 y pen a fydd yn cynnwys te a bisgedi yn ystod y toriad. Does dim eisiau unrhyw offer, dim ond presenoli eich hunan. Am fwy o fanylion cysylltwch a Sandy ar 01267 253547

Noson Stêc y Rheilffordd

Bydd Mike, Jayne a Nick yn cynnal Noson Stêc i 2 bob dydd Mercher - 2 x10oz Celtic Pride stêc ffolen gyda sglodion cartref a garnais salad a photel o win tŷ; am £,25 y cwpwl. Ffoniwch y Rheilffordd ar 01267 253643 i archebu.

Cychwyn Gartre' -- Caerfyrddin – Llanelli

Bu'r mudiad uchod yn gweithredi yn y sir ers 2000 ac ers hynny mae Llanpumsaint wedi chwarae rhan flaenllaw drwy gynnig cymorth elusennol. Mae gennym fricsen yn wal y Neuadd hefyd. Daeth gwirfoddolwyr i'r adwy ac maent eisoes wedi cynnig help i deuluoedd lleol ac mae un o'n gwirfoddolwyr, Jamie, wedi ymgartrefu yn yr ardal gyda'i theulu.

'Rydym yn teimlo'n wir angerddol ynghyn ac estyn help llaw i'r gymuned, felly o Ebrill 2015 ymlaen bydd ein help ar gael i unrhyw deulu yn Sir Gar sydd â phlentyn dan 14 oed yn byw gartre'. Golyga hyn bydd yr angen am wirfoddolwyr yn cynyddu a dyma le gallech chi fod o gymorth i deuluoedd yn yr ardal leol. Rydym yn cynnig 45c y filltir am gostau teithio ynghyd a chwrs cychwynnol, hyfforddiant parhaol at eich datblygiad personol, cyswllt i swyddi a hyfforddiant pellach. Dyma gyfle i wneud gwahaniaeth go-iawn i bobl go-iawn drwy gylchlythyru a chysylltu ag amryw fudiadau a digwyddiadau. Credwn ein bod yn y cefnogi ei gwirfoddolwyr yn dda ac yn cynnig pecyn cynhwysfawr. Yr unig beth a ofynnwn amdano yw eich ymrwymiad i'n gwerthoedd a derbyn cael eich arolygu bob chwe wythnos. Bydd angen dau eirda i gadarnhau eich ymrwymiad i weithio am ddwy awr yr wythnos gyda theulu. Efallai eich bod yn gwybod am deulu fyddai'n elwa o ddod i gysylltiad â ni!

Ein nod yn 2015 yw sicrhau fod pawb yn ymwybodol o Gychwyn Gartre', felly gallwch chi helpi drwy ledaeni'r neges a rhannu'r wybodaeth gydag eraill. Mae'r pleser o weld plentyn yn gwenu, o weld gwerthfawrogiad y rhiant, a'r wen o gael eich adnabod yn wythnosol gan faban, mor unigryw, mae'n anodd cyfleu mewn geiriau. Daeth un ferch adre o'r ysgol wedi ennill Tystysgrif "Datllenwr yr Wythnos" oherwydd bod un o'n gwirfoddolwyr wedi ei helpi gyda'i gwaith cartref. Rydym wedi gweld unigolion yn brwydro drwy'r ing o golli partner oherwydd i'r gwirfoddolwr fod yno yn barod i wrando. Gwelsom deuluoedd yn hawlio llefydd ar gyrsiau coleg a dysgu sgiliau newydd oherwydd bod gwirfoddolwr wedi dangos ffydd ynddynt. Mae gennym gymaint o ddaioni i adrodd ond mae popeth yn ddibynnol ar wirfoddolwyr fel chi sy'n barod i roi o'ch amser!

Miss Jamie Horton Trefnydd y Cynllun, Cymorth Gartre', Caerfyrddin - 01267 246562 / 07805847090 jmlhorton@cccpartners.org.uk, <http://homestartcarmarthenshire.org.uk>

Diwrnod Casglu Sbwriel

Er ei bod yn ddiwrnod sych oer oedd hi! Er hynny ymgasglodd deunaw o bobl i gasglu sbwriel ar hyd ein heolydd ac o amgylch y pentref. Gyda'r offer addas, sachau ac mewn siacedi llachar, gwasgarodd y fintai, i ddychwelyd gydag ugain sach yn llawn sbwriel. Ymysg y casgliad gwelwyd silindr nwy gwag, dau deiar motor beic a bagiau budreddi cwn, yr olaf yma wedi ei hongian ar glawdd er bod bin sbwriel o fewn cyrraedd. Ar ochr yr hewl oedd darn o ddillad isaf wedi ei daflu. Yr oedd llawer o'r sbwriel wedi dod o leoedd bwyta fel McDonalds a KFC yng Nghaerfyrddin. Tebyg iawn wedi bwyta ac yfed eu gwala mae'n rhwyddach agor ffenest y car a lluchio'r gweddillion i'r ffordd nag yw hi i fynd adre a'u sbwriel. Hefyd casglwyd nifer o ganiau diod a phacedi creision gwag. Mae yna nifer o finiau sbwriel ar draws y pentref, felly defnyddiwch hwy neu ewch a'ch gweddillion adre'. Rydym mor ffodus i fyw mewn ardal wledig brydferth, felly cadwch hi felna! Dridiau yn unig ar ôl y diwrnod casglu talwyd y darn cynta' allan o gar ar riw Graig. Felly os gwelwch rywun yn tramgwyddo cymerwch rif y car a'i riportio i'r awdurdodau Sir Gar 01267234567
Carolyn Smethurst

Fy ardal gyfforddus (Comfort Zone) gan Tina Conyard

Yn 2010 gofynnwyd i Rob a minnau gymerid rhan mewn drama fer i'w llwyfannu gan gwmni Pontlliw er mwyn codi arian i'n taith feicio i Baris. Felly dyma ddechrau cymerid rhan mewn nifer o ddramâu bach ac ers hynny buom wrthi hefyd y tu ôl i'r llenni yn y Neuadd.

Mae Meic, ein cyfaill ar y teithiau beicio, hefyd yn hoff o ymddangos ar lwyfan ac mewn pantomeim. Mae ganddo'r ddawn i ddiddori a gwneud i'r gynulleidfa chwerthin. Mae Rob a minnau wedi cyd-chwarae gyda Meic ar nifer o droed mewn gwahanol gynyrchiadau.

Un o'r tylwyth teg oeddwn i yn fy mhantomeim cynta' gyda'm holl linellau mewn penillion. Caled oedd hi gyda'r holl ymarfer blinedig, felly'r flwyddyn ganlynol dyma fi'n dewis promptio. O leia' nawr fe allwn wyllo eraill yn gwneud camgymeriadau ac anghofio eu llinellau.

Ond eleni mi wnes berswadio Meic i roi rhan i mi. Rhan fach? Wel Na! Yn y diwedd dynes ddrwg oedd fy rhan. 'Roeddwn wrth fy modd! Teimlwn yn nerfus ofnadwy ddydd y rihysal gyntaf, ond 'roedd gwaeth i ddod. Dywedodd Meic fod angen i mi ganu. Fi i ganu? Anobeithiol! Pan glywodd Meic fy ymgais gyntaf penderfynodd byddai'r well dileu'r eitem yn gyfangwbl. Ond erlynais arno i roi wythnos i mi ymarfer a cheisio gwneud cyfiawnder a'r gan.

Anghofiais am weddill y sgript wrth wrando a gwrando ar Nat King Cole - "When I fall in love...". Dyma ymarfer ac ymarfer, ar y ffordd adre' o'r gwaith, yna byddari'n w'r a'r ci a phawb arall. Daeth dydd y rihysal a dyma fi'n rhoi cynnig arni. Bu tawelwch am ysbaid cyn i weddill y cast ddechrau clapio, a'r penllanw wrth i Feic ddatgan fod y gan i aros yn rhan o'r sioe. Bois bach!

Bellach mae'r holl berfformio drosodd a'r Panto wedi bod yn llwyddiant gan gynulleidfaoedd llawn. Dwy ddim yn credu y daw neb o Hollywood i'm canlyn ond bu'n fraint fod yn rhan o fenter lle 'roedd cymaint o bobl a phlant yn cael cymaint o hwyl. Llwyddais i wneud rhywbeth y tu allan i'm hardal fach gyfforddus Hoffai Rob a minnau ddiolch i bawb yn Llanpumsaint wnaeth gynnig cefnogaeth chynghor i ni, a diolch hefyd i'r rhai hynny ddaeth i'n gweld yn "Pussy in Boots"

Clinig Gofal Traed

Y newyddion day w bod ein ciropodydd rheolaidd Gary Robinson yn masnachu fel 'Head to Toes' ac am ymweld â Llanpumsaint fel o'r blaen.

Dylai unrhyw gwsmeriaid newydd gysylltu â Gary ar unrhyw noson rhwng 6-8 y.h. ar 07789344488, a hefyd yn gwsmeriaid presennol sydd eisiau siarad gydag ef.

Bydd y clinig nesaf ar ddydd 23 Ebrill a 4 Mehefin

Côr Llanpumsaint a'r Cylch

Bydd y Côr yn rhoi perfformiad o "Olivet to Calvary" gan J.H.Maunders yn Eglwys Crist, Caerfyrddin ar nos Iau, Ebrill 16 2015 am 7.30 yr hwyr. Yn cynorthwyo'r Côr bydd Robert Jenkins, Tenor a Gwyn Morris, Bariton gyda Allan Fewster yn cyfeilio. Bydd yr elw yn mynd tuag at Ymchwil Cancr. Taer erfyniwn am eich cefnogaeth tuag at yr achos teilwng hyn.

Ar ôl hyn fe fydd y Côr yn paratoi ar gyfer y Cyngerdd Blynyddol ym mis Hydref a hefyd Cyngerdd lleol yn y misoedd sydd i ddod. Manylion pellach i ddilyn.

Mae gwahoddiad i aelodau newydd yn parhau felly os oes gennych ddiddordeb cysylltwch a Gwyn Nicholas, Arweinydd ar 01267 253686 neu unrhyw aelod o'r Côr.

Newyddion yr Heddlu

Gyda'r haf ar ddod, hoffwn bwysleisio i rieni a theidiau a neiniau i sicrhau unwaith yn rhagor bod y plant sydd dan eich gofal yn ymwybodol o beryglon dŵr, yn arbennig yng ngoleuni digwyddiadau trasig yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar. Rwy'n teimlo y dylai pob un ohonom wneud ein plant a'n hwyrion yn arbennig o wylidwrs o gwmpas nentydd, llynnoedd, afonydd a'r môr gan nad ydym eisiau i rywbeth trasig fel hyn ddigwydd eto. Mae'r effaith ar gymunedau bychain yn dorcalonnus a gall pob un ohonom gymryd amser i atgoffa'n pobl ifainc i gymryd gofal.

Bydd gwiriadau cyflymder yn parhau gan ein bod wedi cael gwybod am sawl cerbyd lleol sy'n ymddangos fel pe baent yn gyrru'n gynt na'r terfyn cyflymder o 30mya sydd wedi'i osod yn y pentref.

Cysylltwch â SCCH 8046 Martin Dickenson neu PC8 Craig Roderick ar 101 os oes gennych unrhyw bryderon lleol

Taith o Gaerfyrddin i Aberystwyth ym 1964

Cliciwch ar y dolen i weld y ffilm: <http://vimeo.com/103641050> sydd yn dangos un o'r teithiau olaf ar y rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth a ffilmwyd ym mis Medi 1964, gan gynnwys y leiniau cangen i Gastell Newydd Emlyn ac Aberaeron

Cylch Meithrin Bronwydd

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi bod wrthi yn casglu tocynnau "Cash for your Community" i ni. Rydym ni yn ddiolchgar iawn am bob un. Maent yn y "Carmarthen Journal" tan yr 8fed o Ebrill.

Rydym ni yn cynnal Noson Gaws a Gwin ar Nos Sadwrn 16eg o Fai yn Neuadd Bronwydd

Ein horiau agor yn Neuadd Bronwydd (amser tymor) yw 9.15 y.b. tan 12.00 h.d o ddydd Mawrth i ddydd Gwener, a Thi a Fi ar fore Gwener o 10.00 y.b tan 12.00 h.d. Croeso cynnes i blant bach a rhieni/gofalwyr. Am fwy o wybodaeth: 07929 431652

Neges oddiwrth y Ficer

Tebyg iawn y gwyddoch erbyn hyn fod Ruth, y plant a minnau yn symud ym Mis Ebrill, oherwydd i mi dderbyn gwahoddiad yr Esgob i ofalaeth eglwysi Cilgerran gyda Bridell ac Eglwyswrw. Er ei bod yn flin gennym eich gadael edrychwn ymlaen at yr her newydd. Bu'n fraint i wasanaethu'r eglwysi lleol dros y pum mlynedd olaf yma. Er ein bod wedi cydweithio rhaid peidio anghofio mae eglwysi Duw ydynt. Fel dywedodd yr Iesu rydym yn rhan o'r eglwys yn y nef ac ar y ddaear, a llwyddodd ef i orchfygu marwolaeth. Bendith Duw arnoch yn y misoedd nesaf yma . Peter

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion y gwasanaethau am fisoedd Ebrill, Mai a Mehefin 2015.

Ebrill 19 2015 Gwasanaeth am 3.00 p.m. Parch Desmond Davies

Mai 10 2015 Manylion pellach i ddilyn

Mai 24 2015 Gwasanaeth am 2.00p.m. Prifardd Tudur Dylan

Mehefin 7 2015 Cymundeb am 4.00p.m. Parch Huw George

Mehefin 21 2015 Gwasanaeth am 2.00p.m. Mr. Arwel Evans

Os am fanylion pellach cysylltwch a Mr. Danny Davies (Trysorydd) ar 01267 253418 neu Mr. Gwyn Nicholas (Ysgrifennydd) 01267 253686

Capel Nebo

Mi fydd yr oedfaon canlynol yn cael ei gynnal yng Nghapel Nebo:

Ebrill 12fed Mr Dai Lloyd 10:30 y.b

19 Parch Goronwy Wynne 2:00 y.h.

Mai 3ydd Parch Goronwy Evans 10:30 y.b

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Capel y Bedyddwyr Caersalem, Llanpumsaint

“Cyhoeddwn Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd”

Dydd Sul: 10.00am Ysgol Sul I Oedolion (Cymraeg)

2.00pm Oedfa Bregethu (Cymraeg) Sul ofa'r mis - Oedfa Saesneg

Dydd Mawrth 1.00pm Dosbarth Beiblaidd Dwyieithog yn ein chwaer Eglwys Penuel

Dydd Iau 2.00pm Cwrdd Gweddi

Rhifau Cyswllt Mrs Eleri Morris 01267 253895

Rheilffordd Ager Gwili

Digwyddiadau yn Rheilffordd Gwili ar gyfer yr ychydig fisoedd nesaf yn cynnwys, Te'r Prynawn Hufen ar drên stem, Gwelwch Bwni'r Pasg yn Rheilffordd Ager Gwili, Pethau i'w gwneud dros Gŵyl y Pasg, Ciniawa mewn steil – Cinio Dydd Sul ar y trên stem.

Archebwch ar-lein neu www.gwili-railway.co.uk neu ffôn 01267 238213.

Rhagor ar enwau lleoedd

Gyda'r gwanwyn bellach ar droed fe glywoch siŵr o fod yr ymadrodd "Mae'n dechrau glasi!" droeon o weithiau yn ddiweddar. Gwyr pawb mae troi i liw gwyrdd wna'r caeau a'r cloddiau, a bod glas mewn hen Gymraeg yn golygu gwyrdd. Felly mae Pantglas, Nantglas, Brynglas a Bancynglas i gyd yn ddisgrifiadol yn gwneud synnwyr. Gwyddon hefyd mae ystyr glaslanc yw bachgen ifanc yn ei arddegau, a bod glaswellt yn borfa wyrdd.

Felly 'dyw enwau lleoedd ddim bob amser yn golygu'r hyn sy'n ymddangos yn amlwg. Gwnaed un o'r camgymeriadau mwyaf pan ruthrodd rywun i'r geiriadur ynghyn ag ystyr Amlwch yn Ynys Môn. Digon syml medd ef (aml + hwch = lot o foch), a gan fod Môn yn frith o'r anifeiliaid hynny yr oedd yr ateb yn ddigon eglur. Druan ag e', 'roedd e'n 'mhell ohoni! Mae'r AM yn dod o'r un tarddiad ag amgylchynni, a daw'r llwch o Loch sy'n golygu llyn mewn Gwyddeleg o hyd. Daw Llanllwch ger Caerfyrddin o'r un tarddiad, ond yma dros amser trodd y llyn yn gors.

Un o ddadleuon mawr Brutus, a aned yma yn y pentref, oedd bod Llanpumsaint yn ganolfan bwysig i'r Derwyddon, ac yn ail yn unig i Fôn o ran pwysigrwydd. Gan fod y dderwen a'r goeden gelyn yn ganolig bwysig i'w crefydd tynnodd enwau lleoedd i mewn i'w ddadl. Felly bu Llwynderi, Llwynhelyg a Derimysg yn lleoliadau pwysig i'r Derwyddon, gyda'r pencadlys ym Mhantydrw. Gyda llaw daw'r Mysg uchod o'r Geltaidd uisc yn golygu dŵr, a daw chwisgi o'r un tarddiad. Y dŵr hudol debyd iawn! Gwyddom i'r Cristnogion cynnar gymerid drosodd safleoedd derwyddol a'u mabwysiadau at eu dibenion eu hunain, felly Dderwengroes a Llwyncroes.

Er bod llawer o'r stori hyd yn hyn 'nol yn y gorffennol anweledig gellir profi heb amheuaeth am leoliad Eglwys y Bettws yn Nebo. Yr oedd mewn defnydd hyd ddechrau'r 18fed ganrif, gyda'i' holion yno o hyd dan y wyneb, er bod y fedyddfan bellach yng nghyntedd eglwys y plwyf yn Llanpumsaint. Diddorol sylwi mae o'r Saesneg y daw Bettws, o'r gair Bedehouse yn golygu Tŷ Gweddi. Sylwch hefyd ar Bettwsycoed, Bettws-yn-rhos a Bettws ger Rhydaman.

Gan fod amryw o goed yn sanctaidd i hen grefyddau a chredoau mae enwau lleoedd yn adlewyrchiad niwlog o safleoedd oedd unwaith yn sanctaidd. Gallwch weld digon o enghreifftiau ym mhlwyf Llanpumsaint, megis, Llwynderi, Pantuyfedwen, Bedw, Llwynhelyg a Chwmwernen. Mae Penllwyniorwg a Phenllwynuchel yn awgrymu canolfannau pwysicach yn ardal Nebo, neu Ystum Gwili, 'rhen enw am yr ardal. Mae Pantymeillion a Brynmeillion a'r enw Saesneg Cloverhill yn enwau mwy diweddar. Ond byddwch yn ofalus oherwydd 'does gan Bantycelyn a Celynos ddim i'w wneud a'r Derwyddon na'r Saint. Pan adeiladwyd y Ficerdy cynta' i William Henry Powell yn y 1820au enwyd ef am y cysylltiad â'r emynydd enwog William Williams, sef Pantycelyn. Dros ganrif yn ddiweddarach wrth ymddeol o'i gwaith yno adeiladodd Defi a May Pantycelyn dy'r ochr draw i'r hewl. Yr oedd Celynos yn enw hollol addas i'r fenter!

Arwyn 2015

Village Voice April 2015

Copy Date for next Edition 25th May 2015

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Monday and Thursday from 3 September 7.30 – 9.30 Bowls at Memorial Hall

April 7 Tuesday 8.00 Community Council Memorial Hall

April 11 Saturday 11.30 Walk St David's to Solva, bus leaves Solva at 11.30

April 15 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – to book phone 253643

April 16 Thursday 7.30 Llanpumsaint Choir at Christ Church Carmarthen

April 17 Friday 60+ Club Concert Bronwydd Hall

April 22 Wednesday 7.30 Fashion Show Memorial Hall

April 23 Thursday 8.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

April 26 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

April 26 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Bronwydd

April 30 Thursday 8.00 AGM Welfare and Recreation Association in Memorial Hall

May 3 Sunday International Dowsing Day National Botanic Gardens

May 5 Tuesday 8.00 AGM Community Council followed by business meeting Memorial Hall

May 6 Wednesday 4.30 – 5.30 Police surgery outside shop

May 9 Saturday 11.00 Walk Dinas RSPB reserve and Crystal Mountain

May 9 Saturday 4.00 Fun Day and Horse Race Evening Playing Field and Memorial Hall

May 13 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – to book phone 253643

May 16 Saturday Cheese and Wine Evening Cylch Meithrin Bronwydd Hall

May 21 Thursday 8.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

May 24 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

May 30 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Bronwydd

June 2 Tuesday 8.00 Community Council meeting Memorial Hall

June 5 Friday 11.00 Guided walk around Middleton Estate and lunch

June 10 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – to book phone 253643

June 14 Sunday Dowers Field Trip to Cenarth well and Ffynnonne Falls

June 18 Thursday 8.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

June 21 Sunday 11.00 Walk including 5 pools in Llanpumsaint – meet outside Railway Inn

June 28 Sunday West Wales Dowers Bronwydd Hall

June 28 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

*Llanpumsaint and Ffynnon Henry Memorial Hall
To book the hall, phone Arwel Nicholas on 01267 281365*

Llanpumsaint and Nebo Short Mat Bowling Club

The Club's league season has now ended with a record of 12 wins, 3 draws, and 7 defeats. As some Clubs have yet to complete their fixtures, we do not yet know our final league position but it is hoped that we will finish either third or fourth.

The Club held its Cheese and Finals Night on the 2nd April, and the Annual Dinner will be held in the Railway on 17th April. The second leg of the annual Roy Bowen Memorial Trophy against Bronwydd is to be played on the 16th April. The First leg was drawn 4 –4. This match will bring our season to a close.

Our AGM will be held on 27th August at 8.00pm in Llanpumsaint Memorial Hall and anyone interested in joining the club is invited to come along.

Season 2015/16 will commence on Thursday 3rd September in the Memorial Hall from 7.30pm to 9.30pm, and thereafter at the same time each Monday and Thursday.

Anyone wishing to join the club can obtain further information from our Secretary Derick Lock on 01267 253524. Our members ages range from 11 –85 and no experience is required as we have qualified coaches on hand to help. Give us a whirl, we are a very friendly bunch!!

Llanpumsaint Welfare and Recreation Association

The Trustees are hoping to install 2 brand new galvanised full-size goals on the playing field soon. We are also in the process of replacing the last yellow litter bin by the tennis court with a new heavy-duty one.

Once again all users of the field and play area are asked to please place your litter in the bins provided. Meanwhile the field has received it's first cut of the season, and the mole invasion is being dealt with – successfully we hope!

The Association's AGM is fixed for Thursday 30th April at 8.00pm in the Memorial Hall. All village residents are invited to attend. The Trustees of the Association are tasked with keeping the playing field and playground in good order and looking for new faces, whatever age, to join us.

Anyone interested in becoming a Trustee, which involves bi-monthly meetings, should contact our Chair, Pamela Jones on 01267 253257, or our Secretary Derick Lock on 01267 253524 for details.

Llanpumsaint 100 Club

Membership renewal is now due, and all existing contributors have received reminders. If you have not yet renewed and wish to do so, please contact the Club Treasurer, Derick Lock on 01267 253524 for further information. Subscription costs £12 per annum.

All profits from the club are used to keep the playing field, the play area and equipment in good order. Last year a new cradle swing was installed.

Lists of prize winners appear in Village Voice, and on the Memorial hall notice boards, in Penbontbren Stores, The Railway Inn and on the notice board on the side of the adjacent bus stop.

The Club operates through the Llanpumsaint Welfare and Recreation Association and the winning numbers are drawn by the Association's Trustees at their bi-monthly meetings.

Journey from Carmarthen to Aberystwyth in 1964

Click on this link to see the film: <http://vimeo.com/103641050> which shows one of the last journeys ever made on the railway line from Carmarthen to Aberystwyth, filmed in September 1964 including the branch lines to Castell Newydd Emlyn and Aberaeron.

An evening with The Swing Boyz

Having read the excerpts from the review of last year's "night of good food and live music" we went along to the Memorial Hall on the evening of 28th February with high expectations. When we arrived the hall was already buzzing, groups sitting around the tables, listening to the background music or chatting with friends. Wonderful aromas were emanating from the kitchen; the tables were simply but beautifully decorated with catkins and daffodils and all was set for the show to begin.

